

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

Chwefror 2025

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau ac argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 (y Gyllideb Ddrafft). Mae'n canolbwyntio ar faterion polisi a phrosesau allweddol a fu'n rhan o'n gwaith craffu ar y gyllideb ac nid yw'n sylwebaeth gynhwysfawr ar bob maes o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.
2. Bwriad yr adroddiad hwn yw llywio dadl y Senedd ar y Gyllideb Ddrafft, ar 4 Chwefror 2025, ynghyd ag adroddiadau pwyllgorau eraill y Senedd.

Dull Craffu

3. Cawsom ymateb ysgrifenedig ar ein meysydd blaenoriaeth ar gyfer craffu ar y gyllideb gan Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip (yr Ysgrifennydd Cabinet) a lywiodd ein sesiwn dystiolaeth gyda'r Ysgrifennydd Cabinet ar 13 Ionawr 2025.



2. Trosolwg o Gyllideb Ddrafft 2025-26

4. Gosododd Llywodraeth Cymru ei ~~chyllideb ddrafft ar gyfer 2025 i 26~~ ar 10 Rhagfyr 2024. Cyfanswm dyraniad y gyllideb yw £25.8 biliwn, ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Mae hyn yn gynnydd o dros £1.5 biliwn o linell sylfaen ddiwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.

5. Yn ystod y ddadl gychwynnol yn y Cyfarfod Llawn ar gyllideb ddrafft 2025-26,¹ pwysleisiodd Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Cyllid a'r Gymraeg, fod y gyllideb yn "amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein plith" trwy gynyddu gwariant mewn sectorau fel iechyd, addysg, teithio ar fysiau, a gofal cymdeithasol, y dadleuodd y byddai'n arbennig o fuddiol i'r 20 y cant o'r boblogaeth sydd â'r lleiaf.

6. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru sydd wedi'i gynnwys yn nogfennau'r gyllideb yn dangos y bydd gwariant ar adnoddau ar ei uchaf ar gyfer yr ail 20% tlotaf yn 2025-26 (gweler Ffigur 1).²

7. Dywedodd Dr Victoria Winckler o Sefydliad Bevan wrth y Pwyllgor Cyllid:

*"The analysis does not show that the most resources go to the poorest 20 per cent; it shows that the most resources go to the second poorest 20 per cent. Given that the population who are in poverty are mainly in the poorest 20 per cent and part of the next fifth, then the resources are not solely focused on people in poverty."*³


8. Mae ffigurau 2 a 3 yn rhoi trosolwg o brif ddyraniadau'r gyllideb; a dyraniadau'r gyllideb ddrafft wedi'u dadansoddi yn ôl adran wariant a sut mae'r rhain wedi newid o linell sylfaen ddiwygiedig 2024-25.

¹ Cyfarfod Llawn y Senedd: ~~Dadl ar Ddatganiad: Cyllideb Ddrafft 2025-26~~, para 162


² Llywodraeth Cymru, ~~Dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru~~

³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, ~~15 Ionawr 2024~~, paragraff 327.

Ffigur 1: Gwariant adnoddau datganoledig yng Nghymru yn ôl prif faes gwasanaeth (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru).



Ffigur 2 - Trosolwg o'r prif symiau yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 (Ffynhonnell: Ymchwil y Senedd).



Ffigur 3 - Prif ddyraniadau yn ôl adran wariant a newidiadau o Gyllideb llinell sylfaen ddiwygiedig 2023-24 i Gyllideb Ddrafft 2024-25 (Ffynhonnell: Ymchwiliad y Senedd)

	Total revenue and capital allocation	Change 2024-25 Revised Baseline to 2025-26 Draft Budget	
 Health and Social Care	£12,854m	£649m 5.3%	▲
 Housing and Local Government*	£6,740m	£473m 7.6%	▲
 Education**	£2,440m	£96m 4.1%	▲
 Transport	£1,407m	£121m 9.4%	▲
 Climate Change and Rural Affairs	£901m	£117m 14.9%	▲
 Economy, Energy and Planning	£837m	£176m 26.6%	▲
 Central Services and Administration	£463m	£36m 8.3%	▲
 Social Justice	£159m	£11m 7.7%	▲

Gwariant ar gyfiawnder cymdeithasol

9. Mae mentrau cyfiawnder cymdeithasol yn cwmpasu ystod o raglenni ar gyfer cymunedau ymylol ac ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwahaniaethu. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

“Allocations have been made in line with our many Programme for Government commitments which aim to address and reduce inequalities. Comparatively, these are small investments, but their impact will be far reaching and significant on the individuals who require support most.”⁴

10. Mae gan y prif grŵp gwariant (MEG) Cyfiawnder Cymdeithasol ddyraniad o £159 miliwn ar gyfer 2025-26, o gymharu â £148 miliwn ar gyfer 2024-25.

Tabl 1: Cyfanswm y dyraniadau i'r MEG cyfiawnder cymdeithasol

Enwol / Arian	£000s
Cyllideb ddrafft 2025-26	159,121
Llinell Sylfaen Diwygiedig 2024-25	147,737

⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ac Atodiad A

Enwol / Arian	£000s
Y Gyllideb Derfynol wedi'i hailddatgan ar gyfer 2024-25	148,291

11. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd £11 miliwn (7.7 y cant) o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig yn 2024-25.

Crynodeb o newidiadau yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)

12. O fewn MEG Cyfiawnder Cymdeithasol, mae gwariant yn cael ei gategoreiddio i is-grwpiau a elwir yn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BELs). Darperir crynodeb o newidiadau i BELs allweddol yn Nhabl 2. Mae Atodiad B o bapur tystiolaeth y Gweinidog yn nodi'r rhesymeg y tu ôl i newidiadau hyn.⁵

Tabl 2: Crynodeb o newidiadau i BELs yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2024-25

Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)	Pa fentrau sydd wedi'u cynnwys yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb hon?	Newid ar Gyllideb Derfynol 2024-25 (llinell sylfaen ddiwygiedig) mewn termau enwol/arian parod	Newid canrannol ar gyllideb 2024-25 (llinell sylfaen ddiwygiedig)
Cefnogi Cymunedau	Incwm Sylfaenol, Cynhwysiant Ariannol a Digidol, Cefnogi Cymunedau	-1.8 miliwn*	(3.4 y cant)
Comisiynwyr	Costau swyddfeydd Comisiynwyr Pobl Hŷn; Plant; a Chenedlaethau'r Dyfodol a Phenodiadau Cyhoeddus Cymru a Byrddau	+0.4 miliwn	6.2 y cant

⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papurau atodol Llywodraeth Cymru: Cyllideb Ddrafft Atodiad B

Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)	Pa fentrau sydd wedi'u cynnwys yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb hon?	Newid ar Gyllideb Derfynol 2024-25 (llinell sylfaen ddiwygiedig) mewn termau enwol/arian parod	Newid canrannol ar gyllideb 2024-25 (llinell sylfaen ddiwygiedig)
	Gwasanaethau Cyhoeddus.		
Corff Llais y Dinesydd		+0.6 miliwn	7.6 y cant
Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol	Yn cynnwys cyllid ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol	+1.3 miliwn	16.2 y cant
Cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol	Cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol, cymunedau cydlynus, cydraddoldeb, tlodi a phlant - tystiolaeth a chymorth.	+1.2 miliwn	5.9 y cant
Gwasanaethau Eirioli	Cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori.	+2.7 miliwn	23.4 y cant
Cymorth i'r Sector Gwirfoddol	Cymorth ar gyfer gwirfoddoli a'r Sector Gwirfoddol	+1.4 miliwn	17 y cant
Cymorth Cymunedol a Diogelwch	Cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.	+0.5 miliwn	3.3 y cant
Cyfiawnder menywod a	Cyllid ar gyfer glasbrintiau	+0.2 miliwn	18.3 y cant

Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)	Pa fentrau sydd wedi'u cynnwys yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb hon?	Newid ar Gyllideb Derfynol 2024-25 (llinell sylfaen ddiwygiedig) mewn termau enwol/arian parod	Newid canrannol ar gyllideb 2024-25 (llinell sylfaen ddiwygiedig)
chyfiawnder ieuenctid	Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid		
Tlodi Tanwydd**		0.0	0.0 y cant
Cyfanswm cyllid adnoddau (ac eithrio AME)		6.6	4.9 y cant

*Mae rhan fwyaf y gostyngiad hwn yn ymwneud â gostyngiad £9.2m yn y BEL Incwm Sylfaenol

**Oherwydd trosglwyddiad nad yw'n cael ei ailadrodd allan o £1.255 miliwn i'r prif grŵp gwariant Tai a Llywodraeth Leol.

Ein barn ni

Roedd cyllideb y llynedd yn heriol iawn i Lywodraeth Cymru. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r setliad cyllidol heriol, roedd y Pwyllgor yn pryderu mai cyfiawnder cymdeithasol a wynebodd y toriadau dyfnaf o unrhyw faes. Felly mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd o ran cyllideb ar gyfer cyfiawnder cymdeithasol yn y gyllideb ddrafft. Fodd bynnag, rhaid gosod hyn yng nghydestun y toriadau yn y gyllideb a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol, pwysau ariannol cynyddol a mwy o angen.

Mae'r Ysgrifennydd Cyllid wedi dweud bod "hon yn gyllideb sy'n cynyddu gwariant yn bennaf oll ar yr 20 y cant o'n poblogaeth sydd â'r lleiaf", fodd bynnag, mewn sawl maes mae'r gyllideb yn methu â nodi sut y bydd yn targedu penderfyniadau gwario na'r effaith bosibl ar y tlotaf yn ein cymdeithas.

Mae angen deall sylwadau'r Ysgrifennydd Cyllid hefyd yn y cyd-destun ehangach, sef y bydd cyllid refeniw ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yn 2025-26 ar ei uchaf ar gyfer yr ail 20% tlotaf o'r boblogaeth, a fydd yn elwa o fwy o wariant y pen na'r 20% tlotaf. Rydym yn annog bod cyllidebau yn y dyfodol yn canolbwyntio mwy ar yr 20 y cant tlotaf.

Argymhelliad 1. Ymrwymiad Llywodraeth Cymru yw y bydd eu hymyriadau yn anelu at leihau anghydraddoldebau. Dylai Llywodraeth Cymru nawr nodi'n fanwl:

- sut mae'n cysoni'r dystiolaeth o'r dadansoddiad dosbarthiadol ynghylch yr effaith fuddiol ar yr 20 i 40 y cant tlotaf o'r boblogaeth â sylwadau'r Ysgrifennydd Cyllid y bydd y 20 y cant tlotaf yn elwa ohoni fwyaf.
- sut mae'r gyllideb yn blaenoriaethu'r 20 y cant tlotaf, y canlyniadau disgwylidig a sut y bydd yn mesur eu heffaith i sicrhau ei bod yn bodloni disgwyliadau.

Dylid darparu ymateb i'r argymhelliad hwn cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach na diwrnod cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol a drefnwyd ar gyfer 4 Mawrth 2025.

3. Yr effaith ar y sector gwirfoddol

13. Mae tystiolaeth yr Ysgrifennydd Cabinet yn nodi bod cynnydd cyllidebol gwerth cyfanswm o £1.44 miliwn wedi'i ddarparu i gefnogi seilwaith a gwirfoddoli trydydd sector ac i ddarparu cynnydd cyllidebol 3 y cant i bartneriaid yn y trydydd sector, yn unol â'r hyn a ddarperir i gyrff y sector cyhoeddus.⁶

14. Wrth ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft, disgrifiodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) gyllideb y llynedd fel cyfeiriad teithio "brawychus lle roedd disgwyl i'r sector gwirfoddol ddarparu a chynnal gwasanaethau rheng flaen heb gael eu cynnwys mewn penderfyniadau neu heb ddigon o adnoddau i weithredu".⁷

15. Dywedodd Cynghair Henoed Cymru bod llawer o sefydliadau yn ei chael hi'n anodd ateb y galw gyda chyllidebau'n cael eu hystyngiadau i'r eithaf, a galwodd ar Lywodraeth Cymru i ystyried yr heriau hyn wrth bennu cyllidebau a gwneud penderfyniadau.

16. Wrth ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid, cododd sawl sefydliad trydydd sector gan gynnwys Cynghair Henoed Cymru bryderon am gynnydd arfaethedig Llywodraeth y DU mewn Yswiriant Gwladol cyflogwyr.⁸

17. Dywedodd Tenovus wrth y Pwyllgor:

*"We estimate this additional financial burden will cost us, at a minimum, a quarter of a million pounds (£250,000) annually. It's equivalent to the cost of running our benefits advice service. In the last year, this service alone helped secure £4.1m worth of payments to 1,820 people with cancer across Wales."*⁹

18. Gofynnodd Julie Morgan AS a oedd y Llywodraeth wedi gwneud unrhyw asesiad o effaith y cynnydd yn y cyflog byw a'r cyfraniadau yswiriant gwladol ar y trydydd sector. Dyma a ddywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth ymateb:

"The uplift in the budget this year is so important to enable me in my role as Cabinet Secretary for Social Justice to give more

⁶ Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru](#).

⁷ Pwyllgor Cyllid, tystiolaeth ysgrifenedig, [Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#).

⁸ Pwyllgor Cyllid, tystiolaeth ysgrifenedig, [Cynghair Henoed Cymru](#).

⁹ Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Tenovus](#), Rhagfyr 2024.

funding for the third sector overall, and I hope that will alleviate the impact of these changes.”¹⁰

19. Mae hyn yn adlewyrchu sylwadau gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Cyllid a'r Gymraeg, a ddywedodd wrth y Pwyllgor Cyllid:

“So, there is extra money for the third sector in this budget. It is not money for the third sector to pay national insurance contributions, but third sector organisations faced with those decisions will need to construct their budgets accordingly.”¹¹

20. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod swyddogion yn gweithio gyda'r trydydd sector i ddeall yr effaith ariannol ond nododd y byddai sefydliadau llai y trydydd sector yn elwa o'r cynnydd i'r lwfans cyflogaeth o £5,000 i £10,500 ym mis Ebrill 2025.

21. O ran y sector cyhoeddus, mae'r Ysgrifennydd Cyllid wedi darparu amcangyfrif o'r gost uniongyrchol ychwanegol i'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru sy'n deillio o'r newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. Wrth nodi'r costau hyn, dywedodd:

“Mae Trysorlys EM wedi cydnabod y bydd y newid i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn cynyddu costau i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus ac y bydd yn "darparu cyllid i'r sector cyhoeddus i'w cefnogi gyda'r gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn". Rydym yn gweithio gyda Thrysorlys EM i gadarnhau'r manylion a lefel y cymorth a fydd yn cael ei ddarparu.”¹²

Ein barn ni

Rydym yn croesawu'r cyllid uwch gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu efallai na fydd y cynnydd yn ddigonol i reoli'r galw cynyddol a'r costau cynyddol gan gynnwys y cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol i lawer o sefydliadau. Rydym yn cydnabod y bydd y cynnydd yn y Lwfans Cyflogaeth yn rhoi rhyddhad i sefydliadau trydydd

¹⁰ Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2025, paragraff 19.

¹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 77.

¹² Y Pwyllgor Cyllid: Llythyr Llywodraeth Cymru gan yr Ysgrifennydd Cyllid Rhagfyr 2024.

sector llai, ond teimlwn efallai nad yw'r gyllideb ddrafft hon yn ystyried yn llawn y goblygiadau ariannol y mae hyn yn eu peri i weddill y sector gwirfoddol.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru nodi:

- ei amcangyfrif o'r gost uniongyrchol ychwanegol i'r sector gwirfoddol yng Nghymru sy'n deillio o'r newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr;
- sut mae'n disgwyl y bydd y cynnydd mewn cyllid i'r sector gwirfoddol yn eu helpu i reoli effaith ariannol y cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol a;
- pa gynlluniau sydd ganddi i ddatblygu model ariannu cynaliadwy aml-flwyddyn sy'n cynyddu gwytnwch ariannol sefydliadau'r trydydd sector.

4. Ystyriaethau o ran cydraddoldeb a phroses y gyllideb ddrafft

Asesiadau Effaith Integredig Strategol

22. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud yr hyn a ganlyn am ei Asesiad Effaith Integredig Strategol:

“Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau cyllidebol strategol yn lleihau effeithiau anghymesur ar unrhyw un grŵp neu ardal ddaearyddol benodol ac yn lleihau anghydraddoldebau ar draws ein cymdeithas. Mae hefyd yn helpu i adnabod cyfleoedd i sicrhau cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl o'n penderfyniadau buddsoddi. Mae Asesiad Effaith Integredig Strategol cadarn yn sicrhau bod pob punt sy'n cael ei buddsoddi yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf.”¹³

23. Mae adolygiad o'r Asesiad eto i ddod i ben er y dywedwyd wrth ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft 2024-25 y byddai'n dod i ben erbyn mis Rhagfyr 2024.¹⁴

24. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor:

“the review is taking place. It's the first since this was introduced in 2015-16 and Welsh Treasury is leading on the review ...They're looking for advice, not just from the Women's Equality Network in Wales, but also wider advice, including across the world, to make sure that we get this right.”¹⁵

Cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chyllidebu ar sail rhywedd

25. Mae cyllidebu ar sail rhywedd yn ystyried gwahaniaethau rhwng y rhywiau a gwahaniaethau rhyngblethiadol mewn penderfyniadau cyllidebol a pholisi, ac mae'n gofyn am ddefnyddio data rhywedd a rhyngblethiadol i ddeall y gwahaniaethau hyn.

¹³ Llywodraeth Cymru: [Cyllideb Ddrafft 2025-26 Atodiad A: Asesiad Effaith Integredig Strategol](#), Rhagfyr 2025.

¹⁴ Llywodraeth Cymru: [Ymateb ysgrifenedig i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2025-26](#).

¹⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Cofnod y Trafodion](#), 13 Ionawr 2025, paragraff 170.

26. Yn eu cyflwyniad ar y cyd i'r Pwyllgor Cyllid, mae Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod yn dadlau'r hyn a ganlyn:

““last year’s budget highlighted the urgent need for a wider roll out of gender budgeting in Wales to ensure evidence-based, equitable and transparent spending decisions.”¹⁶

27. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor, er bod cynlluniau peilot wedi digwydd, nad yw hyn wedi dod yn rhan brif ffrwd o'r broses gyllidebol eto.¹⁷

Ein barn ni

Sail dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau gwariant

Mewn sawl adroddiad blaenorol ar y gyllideb ddrafft rydym ni (a'n pwyllgorau rhagflaenol) wedi mynegi rhwystredigaeth ynghylch pa mor araf y mae prosesau cyllidebu ar sail rhywedd yn cael eu prif ffrydio. Rydym yn parhau i fod yn rhwystredig. Er ein bod yn croesawu'r ymrwymiad i rannu canllawiau ar gyllidebu ar sail rhywedd, rydym yn ailadrodd y dylai cyllidebu ar sail rhywedd gael ei brif ffrydio fel rhan o'r broses ar gyfer llunio cynlluniau gwariant cyllideb 2026-27 o leiaf chwe mis ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft.

Yn yr un modd, o ystyried datganiad yr Ysgrifennydd Cabinet i'r pwyllgor bod cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yn llywio gosod blaenoriaethau, a'u bod yn gwneud hynny drwy'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, mae'n siomedig nad oes llawer o gynnydd wedi'i wneud i adolygu'r Asesiad, gan sicrhau ei fod yn addas i'r diben.

Casgliad 1. Rydym yn gresynu at yr oedi ac yn llawn ddisgwyl gweld canlyniad yr adolygiad o'r Asesiad cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach na diwedd Gorffennaf 2025. Os nad yw'r Llywodraeth yn gallu darparu hyn, dylai nodi'r rhesymau pam hynny.

¹⁶ Pwyllgor Cyllid, tystiolaeth ysgrifenedig Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, Tachwedd 2024

¹⁷ Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2025, paragraff 170.

Gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

28. Dyrannodd Llywodraeth Cymru £9.2 miliwn i wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) sef cynnydd oddi ar £7.9 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2024-25. Mae hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth VAWDASV 2021-26 (sef refeniw o £1.3m a £0.9m o gyfalaf.)

29. Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn dweud bod y rhan fwyaf o'r cyllid adnoddau ychwanegol hwn yn canolbwyntio ar gymorth i ddioddefwyr trais rhywiol a domestig difrifol a chynyddu ymyrraeth gynnar a gweithgareddau ataliol.

30. Ni wnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei buddsoddiadau'n cyd-fynd â chyllid Llywodraeth y DU mewn meysydd sydd heb eu datganoli. Gan gydnabod pwysigrwydd ffrwd waith ariannu cynaliadwy, dywedodd:

“this all comes as part of our blueprint, working with our colleagues in the criminal justice system, and we do have in that blueprint a sustainable funding ... It will enable us to look at ways in which we can have that longer term sustainable funding.”¹⁸

31. Yn gyffredinol, mae Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu'r £1.3m o gyllid ychwanegol. Fodd bynnag, mae'n dweud nad yw'r gyllideb ddrafft yn amlinellu cynlluniau cynaliadwyedd tymor hir ar gyfer y sector VAWDASW ac mae'n parhau i bryderu am effaith chwyddiant, costau gweithredu uwch, a phenderfyniad Llywodraeth y DU i wneud toriad 4.2 y cant i'r gyllideb ar gyfer gwasanaethau i oroeswyr.¹⁹

32. Mewn ymateb i gwestiynau, pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod atal yn ganolog i'w strategaeth, gan gyfeirio at £150,000 yn ychwanegol ar gyfer gwaith ataliol.

¹⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2025, paragraff 140.

¹⁹ Cymorth i Ferched Cymru: Datganiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, Rhagfyr 2024.

Ein barn ni

Rydym yn croesawu cyllid uwch Llywodraeth Cymru i gefnogi darparu'r strategaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu, mewn maes nad yw wedi'i ddatganoli'n llwyr, y bydd toriadau i wasanaethau rheng flaen ar lefel Llywodraeth y DU yn tanseilio'r ymdrechion hyn. Mae'r manylion am sut y bydd cydweithio â Llywodraeth y DU yn gweithio yn parhau'n amwys. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen yn cael cynnydd termau real mewn cyllid yng nghanol y pwysau ariannol a'r heriau a amlinellwyd. Mae'r Pwyllgor hwn wedi nodi bylchau yn y gorffennol o ran darparu gwasanaethau therapi arbenigol ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc sy'n profi trais ar sail rhywedd neu sy'n dyst i drais o'r fath²⁰. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gyllid sydd wedi'i neilltuo i fynd i'r afael â'r bylchau hyn a rhoi sicrwydd y bydd plant yn gallu cael mynediad at wasanaethau cymorth pan fydd eu hangen arnynt.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanwl:

- sut y bydd yn sicrhau y bydd y cynnydd mewn cyllid ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gwella argaeledd, hygyrchedd ac ansawdd gwasanaethau cymorth rheng flaen yn uniongyrchol;
- sut mae'n bwriadu datblygu model ariannu cynaliadwy sy'n sicrhau bod gan wasanaethau adnoddau digonol i ddiwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr ledled Cymru; a
- pa gyllideb fydd ar gael i gefnogi plant y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt.

²⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Mae'n rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan: dull iechyd y cyhoedd o atal yr epidemig mewn trais ar sail rhywedd, Ionawr 2024

5. Tlodi a chostau byw cynyddol

33. Mae papur tystiolaeth yr Ysgrifennydd Cabinet yn tynnu sylw at ddull Llywodraeth Cymru o gefnogi cartrefi gyda chostau byw. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol, y Gronfa Gyngori Sengl, a dyraniadau drwy'r Gyllideb Cefnogi Cymunedau, fel y rhai i fynd i'r afael â thlodi bwyd, cyllid ychwanegol ar gyfer canolfannau cynnes, a chefnogi aelwydydd â chostau ynni drwy'r Sefydliad Banc Tanwydd.²¹

34. Pan ofynnwyd sut y byddai'r gyllideb yn "cynyddu gwariant yn bennaf oll ar yr 20 y cant o'n poblogaeth sydd â'r lleiaf", dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"... ensuring that we are supporting that 20 per cent who have the least is driving all the priorities of the whole of the Welsh Government, but obviously in my portfolio I am focusing on and targeting those who have the least. Of course, it is about tackling poverty and reducing inequalities, but I think in the written statement I do point to the important points about how equality and social justice are driving priority setting, and you do that through the Strategic Integrated Impact Assessment."*²²

35. Dywedodd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru wrth y Pwyllgor Cyllid, er eu bod yn croesawu mesurau cymorth costau byw Llywodraeth Cymru, roeddent o'r farn nad ydynt yn mynd yn ddigon pell i helpu menywod a grwpiau bregus eraill i ymdopi â phwysau chwyddiant a materion costau byw cysylltiedig.²³

36. Wrth gael ei holi am y dull hirdymor o fynd i'r afael â thlodi, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor:

*"We have a lot to recover... after 14 years of austerity and cuts not just to our funding but to benefits across the board. During those years...we've sought to reach out to help those who most need our support and to tackle inequalities, and to ensure that we can be innovative in ways in which we do that."*²⁴

²¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru](#).

²² Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2025](#), paragraff 4.

²³ Pwyllgor Cyllid, tystiolaeth ysgrifenedig [Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru](#), Tachwedd 2024.

²⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2025](#), paragraff 76.

37. Bu cryn sylw yn y cyfryngau i benderfyniad Llywodraeth y DU i gyfyngu Taliadau Tanwydd y Gaeaf i'r bobl hŷn hynny sy'n cael Credyd Pensiwn neu fudd-daliadau penodedig eraill.

38. Dywedodd Unite, yr undeb llafur:

*"Despite the progress made in the budget it is profoundly disappointing that Wales hasn't followed the examples of Northern Ireland and Scotland and taken action to offset the brutal cut in the winter fuel payment by the UK government."*²⁵

39. Pan holwyd yr Ysgrifennydd Cabinet am y mater hwn, dywedodd:

*"The Winter Fuel Payment, of course, is not devolved. It's a benefit that isn't devolved to Wales. It's devolved to Northern Ireland, and it will be to Scotland from this year. But it's not devolved to Wales, so we wouldn't be able to legislate for an equivalent winter fuel payment scheme."*²⁶

Ein barn ni

Mae'r system fudd-daliadau yn fater a gadwyd yn ôl yn bennaf ac nid oes gan Gymru yr un pwerau â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn nodi effaith niweidiol bosibl penderfyniadau sy'n ymwneud â'r system fudd-daliadau, sef parhad y cap budd-daliadau dau blentyn a diwedd Taliadau Tanwydd Gaeaf cyffredinol i bobl hŷn.

Casgliad 2. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gadarnhau pa sylwadau y mae wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r system fudd-daliadau, sef diwedd Taliadau Tanwydd Gaeaf cyffredinol i bobl hŷn a pharhad y cyfyngiad dau blentyn ar gyfer budd-daliadau. Rydym yn galw ar yr Ysgrifennydd Cabinet i roi manylion am y sylwadau hynny a'r ymatebion a gafwyd cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

²⁵ Unite: Ymateb i Gyllideb Cymru, Rhagfyr 2024.

²⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2025, paragraff 60.

System Budd-daliadau Cymru

40. Mae Siarter Budd-daliadau Cymru yn dweud bod "creu system fudd-daliadau gydlynol i Gymru wedi bod yn uchelgais hirdymor i Lywodraeth Cymru".²⁷

41. Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn tynnu sylw at £500,000 yn ychwanegol i gefnogi map llwybr o Gam Un Symleiddio Budd-daliadau Cymru.²⁸ Cyhoeddwyd y map llwybr ym mis Ionawr 2025 ac mae'n amlinellu'r canlyniadau y disgwylir eu cyflawni drwy'r cyllid hwn.²⁹

42. Mae Sefydliad Bevan wedi galw ar Lywodraeth Cymru i uwchraddio meini prawf cymhwysedd a gwerth arian parod budd-daliadau Cymru:

*"many like Education Maintenance Allowance, the School Essentials Grant and Free School Meals in secondary school have not increased in line with inflation. This means that families must be poorer than ever before to access them while for people who are eligible, the value of support is in many cases lower in real terms."*³⁰

43. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Cabinet ynghylch uwchraddio'r budd-daliadau hyn yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ar y Gyllideb Ddrafft. O fewn ei phortffolio, rhoddodd yr Ysgrifennydd Cabinet yr enghraifft o gynnydd mewn rhywfaint o gefnogaeth a ddarparwyd drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol. Dywedodd:

*"We've uplifted the off-grid fuel payments in the Discretionary Assistance Fund from November to a single payment of £500 for a tank of oil or gas, or three payments of £82.50 for gas canisters in any 12-month rolling period. And also, an additional cooking and fridge freezer appliances payment, which is the individual assisted payment element."*³¹

²⁷ Llywodraeth Cymru, Siarter Budd-daliadau Cymru, Ionawr 2024

²⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru](#).

²⁹ Llywodraeth Cymru [Datganiad llafar: Gwneud y Gorau o Incwm a diweddariad ar waith i weithredu Siarter Budd-daliadau Cymru](#), 14 Ionawr 2025

³⁰ Pwyllgor Cyllid, tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Bevan, Tachwedd 2024.

³¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2025, paragraff 72

44. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai mater i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg oedd budd-daliadau yn ymwneud ag addysg.³²

45. O dan Reol Sefydlog 17.49, ymunodd Cadeirydd y Pwyllgor â sesiwn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar graffu ar y gyllideb ar 16 Ionawr 2025.

46. Dywedodd Vikki Howells, y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch fod y Lwfans Cynhaliaeth Addysg wedi cynyddu ym mis Ebrill 2023 o £30 i £40 yr wythnos. Pwysleiodd hefyd bwysigrwydd y Gronfa Wrth Gefn Ariannol i ategu'r Lwfans.

47. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dweud bod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu trothwy incwm aelwydydd ar gyfer y Lwfans yn y gyllideb ddrafft:

“Rydym yn cydnabod bod costau byw cynyddol yn rhwstr i gyfranogi mewn addysg drydyddol, yn enwedig i ddysgwyr o gefndiroedd incwm isel. Dyna pam ein bod wedi penderfynu cynyddu'r trothwy incwm aelwydydd ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg”.³³

48. Ar y llaw arall, nid oes unrhyw gynnydd yn cael ei gynnig i drothwy incwm yr aelwyd ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim i blant ysgolion uwchradd, sydd wedi'i rewi ers pum mlynedd.

49. Yn yr un modd, mae papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd lefel yr arian sy'n cael ei ddyrannu i'r Grant Hanfodion Ysgolion yn aros yr un fath yn 2025-26.

50. Yn ei thystiolaeth lafar, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y byddai unrhyw gynnydd yn y grant Prydau Ysgol am Ddim Uwchradd yn cael effaith ganlyniadol ar lefel y cyllid ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) a chytunodd i ddarparu nodyn ar y gost o godi'r trothwy hawl. Fodd bynnag, awgrymodd bod uwchraddio hawl Prydau Ysgol am Ddim ysgolion uwchradd yn flaenoriaeth yn y dyfodol. Yn y cyfamser, dywedodd ei bod wedi gofyn i Awdurdodau Addysg Lleol fwydo plant anghenus gan gynnwys y rhai sydd heb hawl i arian cyhoeddus.³⁴

Ein barn ni

³² Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2025, paragraff 70

³³ Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru

³⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion 16 Ionawr 2025, paragraff 38.

Rydym yn cefnogi'n gryf Siarter Budd-daliadau Cymru ac yn croesawu'r ymrwymiad a'r cyllid i gefnogi'r map llwybr cam un. Rydym yn nodi nad yw gwaith wedi mynd rhagddo mor gyflym ag a ragwelwyd ac rydym yn gresynu at y cynnydd araf o ran perswadio pob Awdurdod Lleol i ymgysylltu â'r gwaith hwn y tu hwnt i lofnodi'r Siarter, er enghraifft, nid yw pob Awdurdod Lleol yn defnyddio'r fethodoleg Policy in Practice i nodi pobl nad ydynt yn hawlio'r hyn y mae ganddynt hawl iddo. Rydym yn annog y llywodraeth i barhau â'i hymdrechion i annog pob awdurdod lleol i gymryd rhan cyn gynted â phosibl.

Mae'r Pwyllgor wedi gwrandao'n ofalus ar y dystiolaeth a ddaeth i law am yr achos dros uwchraddio budd-daliadau yng Nghymru. Cafwyd sawl cynnydd i'w groesawu mewn rhai agweddau ar gymorth, er enghraifft cymorth sydd ar gael drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol, a'r cynnydd yn y trothwy incwm cartref ar gyfer y Lwfans Cynhaliath Addysg. Fodd bynnag, credwn fod angen mwy o gysondeb ar draws gwahanol fudd-daliadau, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu mecanwaith i gynyddu trothwyon cymhwysedd a gwerth arian parod yr holl fudd-daliadau yng Nghymru yn unol â chwyddiant bob blwyddyn.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar fecanwaith i gynyddu trothwyon cymhwysedd a gwerth arian parod yr holl fudd-daliadau yng Nghymru yn unol â chwyddiant bob blwyddyn.

Cymorth argyfwng a'r Gronfa Cymorth Dewisol

51. Dywedodd tystiolaeth gan Cyngor ar Bopeth Cymru nad yw miloedd o aelwydydd yng Nghymru bellach yn gweld ymyriadau argyfwng fel math untro o gymorth ond fel anghenraid cylchol. Maen nhw'n dadlau o blaid rhoi hwb i ddyraniad cyllid y Gronfa Cymorth Dewisol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26 ac adolygiad llawn o'r Gronfa.³⁵

52. Galwodd Cyngor ar Bopeth Cymru hefyd ar Lywodraeth Cymru i ailgyflwyno'r gallu i hawlio 5 Taliad Cymorth Brys o fewn cyfnod o 12 mis, yn yr un modd ag yn ystod y pandemig. Gwnaethant hefyd awgrymu caniatáu'r gallu i hawlio 2 daliad pellach o fewn y cyfnod hwn os yw'r angen wedi'i wirio gan bartner cymeradwy a bod yr hawlydd yn ymgysylltu â chefnogaeth ehangach fel cyngor ar ddyledion neu gymorth iechyd meddwl.³⁶

³⁵ Cyngor ar Bopeth Cymru [Cyrraedd pwynt argyfwng: y stori yn Cymru](#), Hydref 2024.

³⁶ Cyngor ar Bopeth Cymru [Cyrraedd pwynt argyfwng: y stori yn Cymru](#), Hydref 2024.

53. Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fod nifer anghymesur o isel o bobl hŷn yn cael mynediad at y Gronfa Cymorth Dewisol. Ym mis Mehefin 2024, dim ond 160 o bobl dros 70 oed a gafodd daliad brys. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer pobl 60-69 oed oedd 810. Mae hyn yn cymharu â 3,997 o bobl rhwng 40 a 49 oed.³⁷

54. Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn nodi ei bod wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer y Gronfa, gan ddyrannu £1 miliwn ychwanegol. Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn nodi'r canlynol:

*"Mae tua 50% o ymgeiswyr i'r Gronfa Cymorth Dewisol bellach yn deuluoedd â phlant ac, felly, mae'n ffordd allweddol o helpu'r plant mwyaf difreintiedig yng Nghymru."*³⁸

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn croesawu blaenoriaeth barhaus Llywodraeth Cymru i'r Gronfa Cymorth Dewisol. Mae hyn wedi rhoi achubiaeth hanfodol i'r rhai mewn argyfwng ers ei gyflwyno ym mis Ebrill 2013. Rydym hefyd yn croesawu'r sawl cynnydd yn y gyllideb sydd wedi'u rhoi ar waith ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol dros y blynyddoedd diwethaf. Byddem yn croesawu adolygiad o weithrediad y Gronfa Cymorth Dewisol i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion y rhai sydd â'r angen mwyaf yn y ffordd orau. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys meysydd fel nifer y taliadau y gellir eu cael yn ystod cyfnod o 12 mis. Rydym hefyd yn pryderu bod pobl hŷn yn llai tebygol o wneud cais am gymorth drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol ac rydym yn annog ystyriaeth bellach o sut y gall pobl hŷn sy'n agored i niwed gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cyflym o weithrediad y Gronfa Cymorth Dewisol i sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion y rhai sydd ei hangen. Dylid cwblhau'r adolygiad mewn pryd i lywio cyllideb ddrafft 2026-27, a heb fod yn hwyrach na mis Rhagfyr 2025.

Tlodi plant

55. Mae Oxfam Cymru wedi dweud, er bod strategaeth tlodi plant Llywodraeth Cymru yn gam ymlaen, mai ychydig iawn o fuddsoddiad sydd wedi bod i fynd i'r afael â'r ffactorau strwythurol sy'n sail i dlodi plant.³⁹

³⁷ Pwyllgor Cyllid, [tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru](#), Tachwedd 2024.

³⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru](#).

³⁹ Pwyllgor Cyllid, [tystiolaeth ysgrifenedig, Oxfam Cymru](#), Tachwedd 2024.

56. O fewn ei phortffolio ei hun, mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi dweud ei bod wedi dyrannu £1 miliwn arall i gefnogi mentrau tlodi plant, gan gynnwys:

- £450,000 yn ychwanegol tuag at gyllid grant tlodi plant yn y dyfodol – mae hyn yn adeiladu ar yr £1 miliwn sydd eisoes wedi'i ddyrannu.
- £295,000 i sicrhau bod y gwaith o fonitro cynnydd ar y Strategaeth Tlodi Plant yn cael ei gyfrannu a'i ddylanwadu gan y rhai sydd â phrofiad byw.
- £250,000 ar gyfer Cymuned Ymarfer Strategaeth Tlodi Plant Cymru.⁴⁰

57. Gofynnodd Jane Dodds AS sut mae'r Llywodraeth yn mesur yr effaith y mae'r gyllideb yn ei chael ar dlodi plant ac a oes bwriad i osod targedau tlodi plant. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet gan ddweud bod fframwaith monitro yn mesur effeithiau mynd i'r afael â thlodi plant. Pan ofynnwyd a oedd hynny'n golygu nad oedd unrhyw dargedau, dywedodd y Gweinidog: “we feel that the measurement framework [is] going to enable us to see how we can effectively tackle child poverty.”⁴¹

Ein barn ni

O ystyried yr amgylchiadau economaidd anodd y mae llawer o bobl yn eu hwynebu, rydym yn croesawu bod y Llywodraeth yn dweud ei bod yn canolbwyntio ar y rhai tlotaf yn ein cymdeithas.

Rydym yn croesawu mwy o gyllid i gefnogi mentrau tlodi plant. Fodd bynnag, rydym yn parhau i bryderu nad oes targedau wedi'u rhoi ar waith i'n galluogi i fonitro ac asesu cynnydd. Edrychwn ymlaen at glywed sut mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd ei fframwaith monitro tlodi plant yn goresgyn absenoldeb targedau ac yn ein galluogi i fesur effeithiau ei dull o fynd i'r afael â thlodi plant.

⁴⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru

⁴¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2025, paragraffau 41-49.

Incwm sylfaenol

58. Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn dweud bod y dyraniad sydd ei angen i wneud y taliadau terfynol i'r rhai sy'n cael yr Incwm Sylfaenol a chynnal y gwerthusiad wedi gostwng £9.2m i £1.5m yn 2025-26.⁴²

59. Mae'r gostyngiad hwn oherwydd bod llawer o'r bobl a gymerodd ran yn y peilot yn eu misoedd olaf o dderbyn taliad, gyda rhai yn dod oddi ar y cynllun peilot o fis Gorffennaf 2024.⁴³

60. Yn eu tystiolaeth, dywedodd y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru eu bod yn pryderu nad oes unrhyw ymrwymadau wedi'u gwneud eto i ymestyn y cynllun yn barhaol i bob person sy'n gadael gofal hyd at 25 oed ledled Cymru. Maen nhw'n credu bod ymestyn y cynllun hwn yn gam rhagweithiol ac effeithiol y gall Llywodraeth Cymru ei gymryd i helpu'r rhai sy'n gadael gofal drwy wariant ataliol.⁴⁴

61. Wrth ymateb i gwestiynau ar y mater hwn, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"We are in the evaluation phase and that's going to continue until 2027, and we'll just need a smaller amount of budget to support that. So, I think that explains why there is a reduction in the budget, because we're coming to the end of the pilot."*⁴⁵

Ein barn ni

Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor unwaith eto yn mynegi eu cefnogaeth gref i'r cynllun peilot Incwm Sylfaenol. Roedd un Aelod yn anghytuno. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i rannu'r gwerthusiad o'r cynlluniau peilot gyda'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2025.

Tlodi bwyd

62. Mae ffigurau gan Trussell yn dangos bod bron i 83,000 o barseli bwyd brys wedi'u dosbarthu yng Nghymru rhwng mis Ebrill a mis Medi 2024: 7 y cant yn llai

⁴² Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru

⁴³ Llywodraeth Cymru Datganiad ysgrifenedig: Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru - y diwedd araf, Medi 2024

⁴⁴ Pwyllgor Cyllid, tystiolaeth ysgrifenedig, NYAS (Gwasanaeth Eiriolaeth Cenedlaethol Ieuenctid) Cymru, Tachwedd 2024

⁴⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2025, paragraff 82

na'r un cyfnod yn 2023, ond yn sylweddol uwch nag ar gyfer blynyddoedd blaenorol.⁴⁶

63. Mae'r gyllideb ddrafft yn dyrannu £2.5 miliwn ychwanegol i fynd i'r afael â thlodi bwyd:

- £1.5m ar gyfer cymorth pellach o ran mynd i'r afael â thlodi bwyd, i alluogi prosiectau lleol i helpu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd.
- £960,000 ar gyfer Partneriaethau Bwyd Lleol
- cynnydd 3 y cant yn y gyllideb i Synnwyr Bwyd Cymru a CLILC i gyflawni'r rhaglen Tlodi Bwyd.⁴⁷

64. Pan ofynnodd y Pwyllgor sut y gallai'r Llywodraeth fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd a diffyg argaeledd bwyd ffres mewn rhai cymunedau, cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod hwn yn fater allweddol i'r partneriaethau bwyd. Dywedodd:

*"We do need to look at more sustainable and longer term ways in which we can tackle food poverty, and that's why I've been able to allocate £960,000 to fund the co-ordinators of the local food partnerships ... that does take overall allocation delivering support for those experiencing food poverty across Wales to nearly £4.5 million."*⁴⁸

65. Amlygodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei hymweliad diweddar â chegin gymunedol Cegin Hedyn yng Nghaerfyrddin, sy'n gweithio gyda'r bartneriaeth fwyd leol i ddarparu mynediad at gynnyrch tymhorol ffres, organig.⁴⁹ Dywedodd:

*"I think it's really important that we see these food partnerships, which bring everyone together. Public health, farmers, schools, local authorities, foodbanks, food pantries, all coming together to look at how we can tackle the root causes of food poverty in Wales, very much supported and steered by Food Sense Wales."*⁵⁰

⁴⁶ Trussell: [Emergency food parcel distribution in Wales April - Medi 2024](#).

⁴⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru](#).

⁴⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2025](#), paragraff 88

⁴⁹ Llywodraeth Cymru, [£1.7 miliwn i gefnogi teuluoedd ac unigolion sy'n wynebu tlodi bwyd](#)

⁵⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2025](#), paragraff 89

Ein barn ni

Rydym yn croesawu cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â thlodi bwyd. Mae'n hanfodol bod y cyllid hwn yn mynd i'r afael â'r materion tymor byr yn ogystal â mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd a diffyg argaeledd bwyd ffres mewn rhai cymunedau. Byddem yn croesawu eglurder ar sut y bydd y cynnydd mewn gwariant ar bartneriaethau bwyd yn helpu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd.

Tlodi tanwydd

66. Dechreuodd y Rhaglen Cartrefi Clyd newydd ym mis Ebrill 2024.⁵¹ Bydd aelwydydd cymwys yn cael 'Asesiad o'r Tŷ Cyfan' a chaiff y canlyniad ei grynhoi mewn 'pasbort', i bawb ddeall pa waith sydd ei angen ac ym mha drefn y caiff ei wneud. Rhoddir blaenoriaeth yn y rhaglen newydd hefyd i dechnolegau carbon isel 'pan fydd hynny'n gwneud synnwyr'.

67. Mae'r gyllideb adnoddau ar gyfer y rhaglen wedi aros yr un fath ar £3.73m, ac mae'r dyraniad cyfalaf wedi cynyddu o £35m i £37.5m.

Ein barn ni

Rydym wedi bod yn gwneud gwaith ar dlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd ac wedi clywed galwadau gan amrywiaeth o randdeiliaid i'r rhaglen dyfu'n sylweddol i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng tlodi tanwydd.⁵²

Yng nghyd-destun graddfa tlodi tanwydd a'r argyfwng costau byw yng Nghymru, roedd y Pwyllgor yn siomedig mai dim ond cynnydd bychan oedd yn y cyllidebau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Rydym yn pryderu y bydd y dyraniad presennol yn y gyllideb yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i wneud cynnydd tuag at ei thargedau tlodi tanwydd.

Argymhelliad 6. Nid yw'r lefelau presennol o gyllid i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn ddigonol, o ystyried maint yr her. Pe bai gan Lywodraeth Cymru arian dros ben yn ystod y flwyddyn, dylai ailgyfeirio'r cronfeydd hyn tuag at fynd i'r afael â thlodi tanwydd fod yn brif flaenoriaeth.

⁵¹ Llywodraeth Cymru: [Rhaglen Cartrefi Clyd Newydd: datganiad polisi](#), Mehefin 2023

⁵² Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Ymchwiliad i dlodi tanwydd yng Nghymru](#)

6. Cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol

68. O ran cydraddoldeb a hawliau dynol, mae gan y Llywodraeth sawl cynllun gweithredu cydraddoldeb gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau. Disgwylir i'r Cynllun Gweithredu Hawliau Anabledd, sy'n hwyr erbyn hyn, gael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2025.

69. Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn tynnu sylw at ddyraniad adnoddau o £700,000 ychwanegol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo hawliau dynol. Mae hyn yn cynnwys:

- £450,000 i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau gweithredu cydraddoldeb.
- £200,000 i chwalu'r rhwystrau i'r gymuned fyddar.
- £50,000 i godi dyraniadau i sefydliadau fel Stonewall Cymru, Anabledd Cymru, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Thriniaeth Deg i Fenywod Cymru.

70. Yn yr hyn a gyflwynwyd ganddynt i'r Pwyllgor Cyllid, dywedodd CGGC fod cau Chwarae Teg ochr yn ochr â gostyngiad mewn cyllid i'r sector cydraddoldeb rhwng y rhywiau wedi lleihau gallu Cymru i weithio tuag at gydraddoldeb rhwng y rhywiau. Maen nhw'n galw ar Lywodraeth Cymru i sefydliadau cydraddoldeb rhwng y rhywiau gael eu "cyllido'n ddigonol i helpu i yrru newid positif ar draws pob sector".⁵³

Ein barn ni

Y llynedd, gwnaeth y gyllideb ar gyfer cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol wynebu rhai o'r gostyngiadau mwyaf mewn unrhyw faes gwariant. Roedd yr effaith ar y sector yn sylweddol. Felly, mae'r cynnydd mewn cyllid eleni i'w groesawu gan mai dim ond cam cyntaf i ail-gydbwyso pethau ydyw.

O ystyried bod yr holl gynlluniau cydraddoldeb yn galw am ddull trawslywodraethol, rydym yn falch bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi ymrwymo i

⁵³ Pwyllgor Cyllid, [tystiolaeth.ysgrifenedig.Cyngor.Gweithredu.Gwirfoddol.Cymru](#), Tachwedd 2024

roi dadansoddiad manylach i'r Pwyllgor o'r ffrydiau cyllido ar gyfer y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Casgliad 3. Rydym yn edrych ymlaen i Lywodraeth Cymru roi dadansoddiad manylach o'r ffrydiau cyllido trawsadrannol sy'n rhoi adnoddau ar gyfer y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a byddem hefyd yn awyddus i gael y manylion hyn mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun Gweithredu Hawliau Anabledd sydd i ddod. Dylid darparu'r wybodaeth hon mewn cyllidebau drafft yn y dyfodol ar gyfer yr holl gynlluniau cydraddoldeb eraill.

Safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr

71. Mae'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cefnogi datblygiad safleoedd sipsiwn a theithwyr newydd. Mae'r dyraniad ar gyfer 2025-26 yn parhau heb ei newid ar £3.44 miliwn.

72. Y llynedd, mynegodd y Pwyllgor ei siom nad oedd unrhyw arian wedi cael ei dalu i awdurdodau lleol am ddwy flynedd yn olynol i ddarparu safleoedd sipsiwn a theithwyr. Gwnaethom argymhell:

"dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth lawn i'r rhesymau dros y sefyllfa annerbyniol lle mae'r Grant Cyfalaf Safle Sipsiwn a Theithwyr wedi arwain at ddyfarnu dim cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022-23 a 2023-24".⁵⁴

73. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi yn ei phapur fod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £4.62 miliwn, i 10 Awdurdod Lleol.⁵⁵

74. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

"We have already, for this financial year, approved 40 applications, at a value of £2,368,958. But some of those bids are multi-year bids. So ...we're there already, in terms of getting the bids."⁵⁶

75. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod dal angen gwaith gyda'r chwe awdurdod lleol hynny nad oes ganddynt safleoedd cyhoeddus yn eu hardal a

⁵⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 Argymhellid 6

⁵⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru.

⁵⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2025, paragraff 107.

gyda'r ddau awdurdod lleol sydd â safleoedd cyhoeddus ac nad ydynt wedi gwneud cais eto.

76. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith ar ddarpariaeth safleoedd tramwy i bennu ble fyddai'r lleoliad mwyaf priodol ar gyfer safleoedd tramwy.

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn falch ei bod yn ymddangos, o'r diwedd, fod cynnydd yn cael ei wneud o ran mynd i'r afael ag annigonolrwydd safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Fodd bynnag, rydym yn dal i gredu bod angen mwy o waith i sicrhau bod pob awdurdod lleol, yn enwedig y rhai sydd â safleoedd cyhoeddus presennol, yn manteisio ar y cyfle y mae'r Grant Safleoedd Cyfalaf yn ei ddarparu i wella'r llety ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Rydym hefyd yn croesawu'r gwaith i ddarparu safleoedd tramwy ac edrychwn ymlaen at weld hyn yn cael ei ddatblygu.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cynnydd sydd i'w groesawu mewn ceisiadau sy'n cael eu cymeradwyo gan awdurdodau lleol ar gyfer safleoedd sipsiwn a theithwyr bellach yn cael ei wireddu gyda safleoedd newydd yn agor o fewn blwyddyn ariannol 2025-26.

Cymorth i geiswyr lloches a ffoaduriaid: Cenedl Noddfa

77. Mae papur ysgrifenedig yr Ysgrifennydd Cabinet yn amlinellu sawl ymyriad pwrpasol i gefnogi'r cynllun Cenedl Noddfa. Mae hyn yn cynnwys:

- cynyddu'r cyllid i Wasanaeth Noddfa Cymru i £0.9 miliwn.
- parhau â'r cyllid £0.7 miliwn i weithredu'r Tocyn Croeso a hwyluso mynediad i'r rhynggrwyd i geiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru.
- parhau â'r cyllid £0.4 miliwn ar gyfer canolfannau Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL).

78. Yn eu tystiolaeth tynnodd NYAS Cymru a Sefydliad Bevan sylw at bryderon ynghylch darparu Prydau Ysgol Am Ddim i bawb a dywedon nhw fod plant y

mae gan eu teuluoedd statws 'Heb hawl i gyllid cyhoeddus' yn aml yn colli allan gan nad ydynt yn gymwys yn awtomatig.⁵⁷

79. Wrth gael ei holi am yr angen i sicrhau bod pob plentyn o bob aelwyd incwm isel yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, waeth beth yw statws mewnfudo plentyn, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

"We need to ensure that this is being delivered, as I say. It's a principle of the Nation of Sanctuary."⁵⁸

80. Cafodd y *Tocyn Croeso*, sy'n darparu teithio rhatach ar fysiau i ffoaduriaid yng Nghymru, ei gyflwyno mewn ymateb i'r rhyfel yn Wcráin. Daeth y cynllun hwn i ben ym mis Ebrill 2024.

81. Wrth ymateb i gwestiynau ynghylch pryd y byddai'r cyllid a ddyrannwyd yn y gyllideb yn cael ei adlewyrchu mewn cynllun newydd sy'n cael ei gyflwyno dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet

"We are working at pace on the...welcome ticket... It's to provide a smartcard to eligible applicants, which will provide six months' free bus travel on participating bus services in Wales."

Ein barn ni

Mae Tocynnau Croeso wedi chwarae rhan bwysig yn ymateb cyfunol Cymru i bobl sy'n ffoi rhag rhyfel ac argyfwng dramor. Roeddem yn siomedig y daeth y cynllun hwn i ben yn sydyn ym mis Mawrth 2024. Serch hynny, rydym yn croesawu cadw cyllid ar gyfer y gwaith pwysig hwn yn y gyllideb ddrafft.

Casgliad 4. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i nodi amserlen glir ar gyfer gweithredu'r olynydd i'r cynllun Tocyn Croeso ac rydym yn disgwyl gweld camau pellach yn cael eu cymryd i sicrhau bod Prydau Ysgol am Ddim wir yn cael eu rhoi i bawb, gan gynnwys i ddisgyblion mewn teuluoedd heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus

⁵⁷ Pwyllgor Cyllid, tystiolaeth ysgrifenedig, NYAS (Gwasanaeth Eiriolaeth Cenedlaethol Ieuencid) Cymru, Tachwedd 2024; Pwyllgor Cyllid, tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Bevan, Tachwedd 2024

⁵⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2025, paragraff 133.

7. Meysydd eraill

Cyfiawnder troseddol

82. Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet ffocws Llywodraeth Cymru ar atal cyfiawnder troseddol, gyda bron i dri chwarter y gyllideb cyflenwi cyfiawnder troseddol (£732,000 o'r gyllideb o £982,800) wedi'i ddyrannu i gynllun Cymru'n Un, sy'n cefnogi mentrau cyfiawnder menywod a ieuenctid. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau fel Visiting Mum, cynghorwyr trais domestig, a chydweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

83. Mae ymdrechion i ddatganoli cyfiawnder ieuenctid yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gyda gwerthusiadau ar y gweill ar gyfer y glasbrintiau cyfiawnder menywod ac ieuenctid. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £0.2 miliwn ychwanegol yng nghyllideb ddrafft 2025-26 i gefnogi'r Glasbrintiau Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid, gan gynyddu'r dyraniad i £1.3m. Nod y cyllid hwn yw gwella mynediad at gefnogaeth sy'n seiliedig ar drawma i fenywod a phobl ifanc sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder.

84. Nododd fod ymdrechion ar lefel bolisi yn mynd rhagddynt i hyrwyddo trafodaethau ar y gwasanaeth prawf, er nad yw'n glir bod cyllid yn cael ei ddyrannu i baratoi ar gyfer datganoli cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf.

85. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

"We are evaluating the women's justice and youth justice blueprints, and I hope that this will all help us to lead towards our goal of devolving youth justice."⁵⁹

86. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod cynllun peilot canolfan breswyl i fenywod yn Abertawe yn cael blaenoriaeth, er bod anghenion cyllido a chomisiynu yn parhau i fod yn aneglur. Dywedodd:

"We're making this a priority, and I emphasised this to Lord Timpson, the Minister, when we met on 18 September, and I'm now following this up very closely with the Ministry of Justice to get the residential women's centre open as soon as possible."

⁵⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2025, paragraff 148

Ein barn ni

O ystyried ymrwymiad maniffesto Plaid Lafur y DU i ystyried datganoli gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid i Gymru, mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth y DU i hwyluso'r broses ddatganoli a sicrhau bod cyllidebu yn adlewyrchu trosglwyddiad posibl y pwerau hyn.

Fel yr amlygwyd yn ein hadroddiad blaenorol, mae'r Pwyllgor yn llwyr gefnogi datblygiad y ganolfan breswyl i fenywod yn Abertawe. Gyda'r caniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo ym mis Awst 2023, mae'n hanfodol bod Llywodraeth y DU bellach yn darparu amserlenni clir, dyraniadau cyllido, manylion comisiynu a chynlluniau ar gyfer cymorth parhaus i sicrhau bod y ganolfan yn dod yn weithredol heb oedi pellach.⁶⁰

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o'r costau cysylltiedig os caiff cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf eu datganoli, gan sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n llwyr ac yn barod i weithredu'r gwasanaethau hyn unwaith y bydd datganoli yn digwydd.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i gyhoeddi cynllun gweithredu manwl ar gyfer y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn Abertawe, gan gynnwys llinellau amser, ymrwymladau cyllido, a threfniadau comisiynu, gan sicrhau bod y ganolfan yn weithredol erbyn mis Awst 2025.

Diogelwch cymunedol

87. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ers 2012. Fodd bynnag, gostyngodd y Llywodraeth ei chyllid ar gyfer y Swyddogion hyn £7.5 miliwn yn 2024-25, gan ailffocysu'r cyllid i ffwrdd o feysydd nad ydynt wedi'u datganoli.

88. Yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor y llynedd, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i "adolygiad cyfforddiad ysgafn" o effaith ei buddsoddiad mewn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a chytunodd i rannu'r canfyddiadau gyda'r Pwyllgor erbyn mis Medi 2024.⁶¹ Nid yw'r adolygiad wedi'i gwblhau eto. Yn ystod

⁶⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol [Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol](#), Mawrth 2023.

⁶¹ Llywodraeth Cymru: [Ymateb ysgrifenedig i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Cyllideb Ddrafft 2025-26](#).

y sesiwn dystiolaeth lafar, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r adolygiad yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn ariannol hon.⁶²

Ein barn ni

Llynedd, gwnaeth y Pwyllgor argymhell y dylai'r Llywodraeth gynnal gwerthusiad o rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ariennir gan Lywodraeth Cymru erbyn mis Medi 2024. Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw hyn wedi'i wneud o fewn yr amserlenni a nodwyd gennym, er ein bod yn cydnabod yr ymrwymiad i gwblhau hyn o fewn y flwyddyn ariannol hon. Bydd y Pwyllgor am ddychwelyd at y mater hwn wrth i ni fwrw ymlaen â'n gwaith ar gydlyniant cymunedol.

Casgliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ei gwaith i asesu effaith llai o fuddsoddiad mewn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar ddiogelwch cymunedol yn enwedig mynd i'r afael â throseddau casineb. Fel y cytunwyd yn flaenorol, rhaid i Lywodraeth Cymru gwblhau ei gwerthusiad o rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a darparu copi o'r gwerthusiad i'r Pwyllgor hwn pan gaiff ei gwblhau.

Comisiynwyr

89. Mae'r Comisiynydd Plant⁶³ a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol⁶⁴ wedi nodi'r heriau ariannol sy'n eu hwynebu, er gwaethaf y ffaith bod eu cyllidebau'n cynyddu 3 y cant.

90. Dywedodd y Comisiynydd Plant, oherwydd "dyraniad cyllideb annigonol", fod ei swyddfa'n wynebu cyfyngiadau i'w gallu i "ymateb yn gyflym ac yn annibynnol i anghenion neu faterion sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys unrhyw adolygiad neu ymchwiliad posibl i gyrff cyhoeddus". Mae'n nodi bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi codi pryderon tebyg ynghylch cyllidebau'r holl gomisiynwyr yn ei adolygiad o gomisiynwyr yng Nghymru.⁶⁵

⁶² Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2025, paragraff 160.

⁶³ Pwyllgor Cyllid, tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Plant Cymru, Tachwedd 2024.

⁶⁴ Pwyllgor Cyllid, tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Tachwedd 2024.

⁶⁵ Pwyllgor Cyllid, tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Plant Cymru, Tachwedd 2024.

91. Cyfeiriodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol at fesurau arbed costau yr oedd ei swyddfa wedi'u cymryd, gan gynnwys diswyddo gwirfoddol a arweiniodd at ostyngiad o £255k mewn costau staff.

92. Pan ofynnwyd am y posibilrwydd o wneud y mwyaf o adnoddau drwy fwy o gydweithrediad rhwng comisiynwyr, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cytuno i fwrw ymlaen â rhywfaint o waith ar hyn ac wedi ymrwymo i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.⁶⁶

Ein barn ni

Yn wyneb yr angen parhaus i ddangos gwerth am arian ac i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr effaith fwyaf bosibl, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r awgrym bod comisiynwyr yn edrych ar gronni adnoddau i wneud arbedion. Mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ganfod mwy am y gwaith hwn.

⁶⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2025, paragraff 164